Cyfarwyddiadau

- Dylid cynnal yr ymarfer cyn gynted â phosibl, a chyn 24 Mawrth 2021. Bydd angen gwneud hyn yn Hemisffer y Gogledd, ac yn ddelfrydol ar noson gyda gweledeedd da.
- Dylai'r arsylwi fod gyda llygad noeth, neu gyda sbectol os ydych chi'n eu gwisgo fel arfer.
- Dylai'r ddelwedd a ddarperir eich helpu i ddod o hyd i'r adran briodol o'r awyr. Mae'n anodd bod yn union gan ei fod yn dibynnu ar ble rydych chi a phryd rydych chi'n edrych, ond os edrychwch chi yn gynnar gyda'r nos (7 PM) bydd tuag at y De-De-Orllewin (DDO) ac yn uchel yn yr awyr, ac yn symud tua'r gorllewin ac i lawr, i gyfeiriad DGD tua hanner nos. Yn hwyrach yn y mis bydd yn is yn yr awyr, ac yn ôl pob tebyg yn gostwng yn rhy agos at y gorwel erbyn tua 11 PM.
- Mae'r cylchoedd mwy yn nodi lleoliad sêr sy'n hawdd eu gweld. Mae'r cylchoedd llai yn dynodi sêr a ddylai fod yn weladwy gan y llygad noeth o dan amodau gwylio da. Efallai y byddwch chi'n adnabod patrwm y sêr yn y gornel chwith isaf fel Orion, ond nid yw'r ymarfer hwn yn gofyn am unrhyw wybodaeth seryddol flaenorol.

Cymerwch ofal wrth weithio yn y tywyllwch!

Eich Tasg

- Mae'r petryal yn blocio rhan o'r awyr. Mae un seren sy'n hawdd ei gweld wedi'i marcio i roi pwynt cyfeirio i chi.
- Eich tasg yw llenwi gweddill y petryal gan nodi popeth y gallwch ei weld.
- Gwnewch eich diagram mor ddefnyddiol â phosibl.
- Gwnewch iddo ffitio ar un dudalen o bapur A4 os gwelwch yn dda.
- Rhaid i'r holl farciau ar y papur gael eu gwneud gyda beiro marciwr tew, marciwr bwrdd gwyn, neu pen ffelt plentyn bach (neu wedi'i fewnosod mewn llinellau o leiaf 2 mm o led).

Eich Offer

- DIM: telesgopau, ysbienddrych neu lensys heblaw sbectol arferol.
- DIM: pren mesur, neu fesurau tâp, neu wiail â graddfa fesur, a dim dyfeisiau mesur ongl, ond gallwch ddefnyddio'ch corff eich hun.
- Gallwch ddefnyddio hambwrdd o ddŵr neu ddrych.
- Gallwch ddefnyddio cerrig mân, cownteri neu beli o does gludiog i nodi'r safleoedd cyn rhoi ar bapur.
- Gallwch ddefnyddio bwrdd i gefnogi'ch offer.
- Gallwch ddod â'ch gwaith y tu mewn a thrawsgrifio i dudalen newydd o bapur.

Wedi hynny

- Llenwch yr holiadur i roi manylion am:
  - Sut gwnaethoch chi'r ymarfer hwn
  - Y dyddiad a'r amser
  - Eich lleoliad bras
- Rhowch ychydig o wybodaeth amdanoch chi'ch hun hefyd:
  - Arwydd o'ch gwybodaeth seryddol
  - Arwydd o'ch sgil a'ch profiad yn y celfyddydau gweledol
  - Adborth ar sut roeddech chi'n teimlo am yr ymarfer hwn
- Rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt hefyd - dim ond er mwyn ein galluogi i roi adborth i chi am yr astudiaeth y mae hyn. Ni ddefnyddir unrhyw wybodaeth bersonol y gellir ei holrhain mewn unrhyw gyhoeddiad sy'n codi o'r astudiaeth hon.
- Os oes gennych sganiwr gwely fflat digidol, sganiwch eich diagram a'ch holiadur, arbedwch fel ffeil ddelwedd, ac e-bostiwch i a.mcmillan@glyndwr.ac.uk
- Os nad oes gennych sganiwr, anfonwch trwy'r post. Anfonwch e-bost ataf am gyfeiriad.

Diolch!


DDO ≈7 PM